# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 4 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **09.00 – 11.09** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2463**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Professor Andrew Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**<br>**Simon Dean, Llywodraeth Cymru**<br>**Rory Farrelly, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**<br>**Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Ruth Hussey, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Hamish Laing, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**<br>**Paul Roberts, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**<br>**Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru** |

| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |
|---|---|

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Llythyr gan James Price (6 Hydref 2014)

2.2 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (14 Hydref 2014)

2.3 Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Llythyr at Archwilydd Cyffredinol Cymru (14 Hydref 2014)

2.4 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Nick Capaldi (17 Hydref 2014)

2.5 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gronfeydd Strwythurol yr UE: Llythyr gan Syr Derek Jones (21 Hydref 2014)

2.6 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Llythyr gan Syr Derek Jones (22 Hydref 2014)

## 3 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru; Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru; a, Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, ynghylch llywodraethu byrddau iechyd GIG Cymru, yn benodol ar faterion yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3.2 Datganodd Dr Hussey fuddiant am ei bod yn perthyn i Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

3.3 Cytunodd Dr Goodall i anfon manylion am gostau ariannol darparu cefnogaeth ychwanegol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys defnyddio meddygon locwm a nyrsys asiantaeth, ac i anfon enwau'r holl aelodau cyfetholedig ar y bwrdd ynghyd â manylion am eu sgiliau a'u pecynnau tâl (os yn briodol). Cytunodd hefyd i ddarparu rhagor o fanylion ac amserlen ar y Fframwaith Safonau Iechyd ar gyfer Papur Gwyrdd GIG Cymru a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 3 Tachwedd 2014.

3.4 Cytunodd Dr Goodall i ystyried cyhoeddi lefel yr ymyrraeth ym mhob bwrdd iechyd yn fwy cyhoeddus, efallai ar wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol.

## 4 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru

4.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar yr Athro Andrew Davies, Cadeirydd; Paul Roberts, Prif Weithredwr; Rory Farrelly, Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf; a, Hamish Laing, Cyfarwyddwr Meddygol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ynghylch llywodraethu byrddau iechyd GIG Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a chytunodd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, yn gofyn am eglurhad ynghylch dosbarthiad yr adnoddau ariannol ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd yn 2014-15.